

Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod: 06.01.2015
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol: Y Cyngorwyr ; Danny Davies, Dylan Jones, Wyn Thomas, Carolyn Smethurst, Mike Poston, Pamela Jones, Arwel Nicholas Cyngorydd Sir, Irfon Jones
Ymddiheuriadau: Dim

Rhif Agenda	Nodiadau/ Pendefyniadau	I'w weithredu gan
Cofnodion	Sillafiad 'Peake' yn anghywir yn y cofnodion Saesneg Cynnigiwyd eu bod yn gywir; WT, eiliwyd, AN	
Materion yn codi	<p>WT, CS ac IJ wedi cyfarfod gyda John McEvoy, diwedd Tachwedd, ac yntau wedi cytuno i wneud arolwg dichinoldeb fydde'n cynnwys symud ardal 30 mya nôl tu hwnt i Gwarcwm. Peiriannwyr y Sir i greu cynllun atal cyflymdra fyddai'n ystyried yr heol heibio'r Cae Chwarae yn ogystal.</p> <p>Consyrn gan Mr Peake am drafnidiaeth yn torri'r tro wrth fynd lawr heol Dôl Llan; beth am osod arwydd fel rhwystr ar ganol yr heol?</p> <p>Trafodaeth yn dilyn yr adroddiad:</p> <p>WT; wrth ystyried sylwadau J McEvoy, 'talk is cheap!' Angen gweithredu sydd.</p> <p>CS; arolwg dichinoldeb i'w wneud yn fuan, Adran Trafnidiaeth eisioes wedi derbyn gwybodaeth ar lle mae gosod gwifre monitro. Angen cael amserlen ar gyfer y gweithgareddau. Soniwyd am osod goleuadau sy'n fflachio, a bod swm o £60,000 i'w wario dros gyfnod o 3 mlynedd. J McEvoy wedi dweud nad oes rhaid rhoi arwyddion bychan 30 mya lle mae goleuadau stryd. Beth am ofyn i'r Heddlu sydd ac arbenigedd mewn atal gor-yrru am gymorth a syniadau?</p> <p>MP; beth am dynnu lawr clawdd y cae chwarae fel bod modd gweld trafnidiaeth a phlant?</p> <p>Rhiw Graig: Steve Pilliner wedi addo adrodd nôl ar yr awgrym o godi rhwystrau i atal trafnidiaeth rhag llithro lawr y dibyn. IJ wedi codi'r syniad am symyd arwyr 30 mya o Eglwys Fach i Rhiw Graig</p> <p>CS; bobl Clifford House yn codi'r sbwriel a deflir i ymyl y ffordd. Awgrymwyd efallai mae tacsis sydd yn gyfrifol am adael i'r rhai y maen't yn eu cludo, i daflu gweddillion brys fwyd allan o'r ffenestri; beth am gysylltu gyda nhw ac awgrymu eu bod yn cadw bin sbwriel yn y car? CS yn awgrymu cysylltu gyda 'Street Scene' gyntaf</p> <p>Cyfieithu: Delyth Charles wedi dewis ymddeol oherwydd fod y gwaith cyfieithu wedi cynyddu yn sgil ethol MP fel Cyngorydd; angen offer cyfieithu bellach, ni fydd sibwrdd yn y</p>	

	<p>glust yn ddigonol. Clerc wedi chwilio am gymorth ariannol/grantiau oddi wrth Un Llais Cymru a Mentrau Iaith I gyflogi Cyfieithydd arall ond does dim ar gael. Cysylltwyd â chwmni cyfieithu o'r enw Trywydd a rhoddodd dyfynbris rhesymol ac a ddaeth I gyfieithu yn y cyfarfod hwn. Telerau Trywydd yw:</p> <p>Cyfieithu ar y pryd: £35/awr Costau teithio: 0.50c/filltir (o'r Swyddfa yng Nghaerfyrddin) Bocs o glustffonau (20) yn dod yn rhad ac am ddim Bydd TAW yn ychwanegol i'r swm.</p> <p>Trafodaeth Dywedodd y Clerc nad oedd modd cael tri dyfynbris oherwydd nad oedd y cwmnïau cyfieithu ar gael. Derbyniwyd pris oddi wrth unigolyn, John Dixon a fyddai'n codi £130 + TAW am ei waith. Rhaid I John Dixon logi y clustffoniau am gost o £60 I bob cyfarfod. Penderfynodd y Cynghorwyr yn unfrydol I rhoi'r gwaith I Gwmni Trywydd.. WT yn cynnig ac AN yn eilio.</p>	
Gohebiaeth	<p>Western Power – llwybyr y gwifrau o'r Fferm Wynt Cynllun Trafnidiaeth Newydd Diweddariad oddi wrth Trawslink Cymru Defibrillator – Clerc wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth gwmnïau sydd yn cynnig yr offer. CS yn adnabod unigolyn fyddai'n fodlon ymwneud â'r syniad; mudiad Welsh Hearts yn cynnig yr offer am ddim. Gyda'r gwasanaeth Ambiwlans mewn argyfwng, syniad da fyddai gosod defibrillator yn y pentref AN; wedi rhoi cynnig ar y syniad o'r blaen a neb wedi dangos diddordeb PJ; nes bod rhagor o bobl ar gael, does dim modd datblygu'r syniad WT; fyddai angen tîm o wirfoddolwyr ymroddedig ED; a oes pentrefi arall wedi gosod yr offer; sut mae pethau yn gweithio fanna? WT yn dweud bod yr offer ar gael ym Mharc Caerfyrddin, rhodd oddi wrth Clwb Rygbi'r Quins</p>	
Materion Ariannol	<p>Praesept – angen ei osod ar gyfer 2015. Trafodwyd y pwnc ar wrth ystyried yr arian sydd yng nghyfrif y Banc, penderfynnwyd cadw at Praesept llynedd, sef £22.00. AN yn cynnig a PJ yn eilio D Charles; £20.00. Cynnigiwyd ei dalu CS, eiliwyd gan DD. DD yn cynnig danfon llythyr o ddiolch I D Charles am ei hymroddiad i'r cyfieithu dros nifer o flynyddoedd. CS yn bwriadu danfon llythyr personol. WT yn awgrymu danfon rhodd, ond angen i'r Clerc gysylltu gyda Un Llais Cymru a gofyn a oes caniatad gwneud hynny. Cost Ilogi'r Neuadd - £50.00. Cynnig WT, eilio DJ Derbynneb am y garreg goffa wedi ei dderbyn oddi wrth Osborne Davies.</p>	
Cynllunio	Afallon – estyniad. Dim gwrthwynebiad	

	<p>Penrhiwfach – ménage. Dim gwrthwynebiad ond CS am bwysleisio ei fod ar gyfer defnydd personol yn unig.</p> <p>Brynmeillion – dymchwel adeilad a chodi un newydd. Dim gwrthwynebiad</p> <p>CS yn cyhoeddu fod y Cyllun Datblygu Lleol wedi ei gymeradwyo.</p>	
UFA	<p>IJ – dim</p> <p>DD – cyflwr truenus Rhiw Graig unwaith eto. Dŵr ar yr heol wrth ymyl Maenllwyd yn broblem unwaith yn rhagor. Blychau graean wedi ei llenwi.</p> <p>DJ – dim</p> <p>WT – cyflwr gwael man croesi'r rheilffordd ym Mronwydd</p> <p>CS – crynhoi sbwriel yn fuan (Mis Chwefror) a chroeso I bawb I ymuno gyda'r criw! Llanast ar ben heol Ffynnonhenri, bagiau sbwriel wedi eu rhwygo, a'u cynnwys yn lledu ar hyd yr heol.</p> <p>AN yn cyfeirio at faw cwn hefyd. Angen rhagor o arwyddion yng Nghwm Hagr er mwyn rhwystro gwaredu sbwriel dros y dibyn.</p> <p>Am l'r Clerc gysylltu gyda Western Power am esboniad ar dorriadau trydan y misoedd diwethaf. Richard Davies, Cyngor Sir Gâr, sydd a chyfrifoldeb gwneud gwaith cynnal a chadw ar rhwydwaith y carthion wedi dweud bod gwaith adnewyddu'r orsaf garthion I gychwyn yn fuan</p> <p>MP – wal Bont Newydd angen ei drwsio, a sbwriel ac annibendod wedi ei adael yn y cae. Beth am arwydd I ystad Nant yr Ynys?</p> <p>PJ – beth am ofyn I PCSO Martin Dickenson fynychu'r cyfarfodydd yn achlysurol? ED yn awgrymu I unigolion gysylltu gyda fe yn uniongyrchol. Angen l'r Clerc gael manylion yr Heddwlas sydd a chyfrifoldeb trafndiaeth y Fro.</p> <p>AN – Rheilffordd Bronwydd mewn cyflwr difrifol. Gollyngfa ddŵr gerllaw y Neuadd yn parhau I fod yn drafferthus ac yn drewi o garthion yn ogystal</p> <p>Clerc yn son am Gronfa Jenny Eirian, a chyfarfod gyda'r Cyfreithwyr. Angen caniatad y cyfranogwyr gwreiddiol cyn bod hawl newid y Cyfansoddiad. Clerc I barhau gyda'r gwaith</p>	
Diwedd y Cyfarfod	21.15	

Cafwyd yn gywir :	Cafwyd yn gywir :
(Cadeirydd)	(Ysgriennydd)
Dyddiad :	Dyddiad: